# Cynllun Datblygu Ysgol Gymraeg Trebannws Medi 2026- Medi 2027 (Blwyddyn 3 o’r targed)

| | | |
|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 2** | **Cwestiwn** | **Creu dysgwyr uchelgeisiol ac hyderus drwy ddatblygu Medrau Rhifedd disgyblion**<br>**Arweinydd y Flaenoriaeth : Angharad Saunders**<br>**Aelod (au) Llywodraethol: Mrs R Wilcox, Mr D Jones + Mr C Davies** |

| **Pam mae hyn yn flaenoriaeth - beth mae hunan werthusiad yn dweud wrthym fod eisiau gwella?** | | **Meini prawf llwyddiant – sut bydd y llwyddiant yn edrych ar ôl blwyddyn?** |
|---|---|---|
| Dengys systemau monitro bod angen datblygu **dealltwriaeth gysyniadol** *(gwybodaeth i ddeall ac egluro cysyniad mathemategol, trafod yn fanwl, adeiladu arnynt a’u cysylltu â’i gilydd)* a sicrhau **dyfnder o ddealltwriaeth** *(crynhoi cysyniad: llafar, pendant (concrit), gweledol, digidol a haniaethol ar draws yr ysgol gyfan).*<br><br>Yn ogystal, mae hefyd angen defnyddio Mathemateg mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn ac ystyrlon. | | Sicrhau bod:-<br><br>• Disgyblion yn magu hyder wrth gynrychioli cysyniadau mewn ffyrdd amrywiol<br>• Gallu'r disgyblion i ddefnyddio iaith fathemategol fanwl gywir i egluro eu meddwl yn gwella<br>• Disgyblion yn magu hyder wrth ddefnyddio strategaethau effeithlon ar gyfer cyfrifiadau cymhwyso cysyniadau yn annibynnol i broblemau newydd a sefyllfaoedd anghyfarwydd<br>• cymhwyso eu sgiliau rhifedd yn drawsgwricwlaidd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. |